**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-Ddisgrifiad: Rheolwr Cynaliadwyedd**

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:
**Rheolwr Cynaliadwyedd**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu i'ch cynorthwyo gyda'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru ar gael fan yma: [www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)

## Cynnwys


**Croeso** ..... 2

**Sut i wneud cais** ..... 3

  **Cymorth Mynediad** ..... 3

  **Rhannu Swydd a Gweithio Hyblyg** ..... 4

  **Ar ôl i chi wneud cais** ..... 4

**Hysbyseb Swydd** ..... 5

**Swydd-ddisgrifiad Llawn** ..... 7

  **Nodau'r Swydd** ..... 7

  **Cyfrifoldebau** ..... 8

  **Gofynion Sylfaenol ar gyfer y Swydd** ..... 10

**Ffilm Cymru Wales** ..... 11

## Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y swydd unigryw hon. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â Ffilm Cymru yn ystod cyfnod cyffrous o dwf. Mae cyllid sydd newydd ei ddirprwyo gan raglen Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru, ceisiadau llwyddiannus am gyllid gan lywodraeth y DU, a'n partneriaeth ar raglen Media Cymru gwerth £50 miliwn, oll wedi rhoi hwb sylweddol i'r gwaith a wnawn i gefnogi sector sgrin cynaliadwy yng Nghymru.

Datblygwyd ein rhaglen Green Cymru am y tro cyntaf yn 2019 i gefnogi gweithwyr proffesiynol y sector sgrin a chwmnïau yng Nghymru i gyflawni allyriadau carbon sero-net erbyn 2050. Mae wedi ennill cefnogaeth Clwstwr Creadigol, Albert Bafta, Cymru Greadigol, y Sefydliad Ffilm Prydeinig, ac yn fwyaf diweddar consortiwm Media Cymru, a thrwy hynny byddwn yn gallu cynyddu ein buddsoddiadau ymchwil a datblygu mewn arloesi gwyrdd yn y sector sgrin.

Mae hon yn rôl amrywiol ac uchelgeisiol sy'n debygol o weddu i rywun sy'n bwrw ati ar eu menter eu hun, sy'n ffynnu ar weithio mewn partneriaeth ac sydd wedi'u hysgogi tuag at newid systemig; rhywun sydd â diddordeb yn y ffordd y mae amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, cynaliadwyedd amgylcheddol ac arloesedd busnes ehangach yn cydblethu.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych,
*Kim Warner, Pennaeth Cynhyrchu*

# Sut i wneud cais

Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat arall o gais gyda chi, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol mewn e-bost i Ihsana Feldwick ar ihsana@ffilmcymruwales.com yn amlinellu eich argaeledd ac yn dangos yn glir sut mae eich profiad a'ch sgiliau yn bodloni'r gofynion sylfaenol (gweler tudalen 10) a manyleb y swydd sydd wedi'i nodi yn y pecyn hwn.

Cyflwynwch eich cais erbyn **hanner dydd, 13 Chwefror 2023.**

Nid yw Ffilm Cymru yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs ac felly mae'n rhaid bod eisoes gennych Hawl i Weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y rôl hon.

Os ydych yn ymgeisydd mewnol sy'n gweithio yn Ffilm Cymru, trafodwch gyda'ch rheolwr llinell cyn gwneud cais.

Caiff y cyfweliadau eu cynnal ar 20 Chwefror 2023, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.

**Cymorth Mynediad a Chynhwysiant**

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydym yn angerddol am ehangu mynediad i'r sector sgrin.

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf Gofynnol ar gyfer y swydd ac sy'n arddel hunaniaeth Pobl y Mwyafrif Byd-eang, Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig neu bobl F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn

niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel ceisiadau fideo neu ddec sleidiau. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch ag Ihsana Feldwick ar **ihsana@ffilmcymruwales.com** i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

## Rhannu Swydd a Gweithio Hyblyg

Rydym yn agored iawn i gynigion rhannu swydd a gweithio hyblyg. Rhowch fanylion eich cynnig rhannu swydd neu weithio hyblyg yn eich llythyr eglurhaol os yw'n berthnasol.

## Ar ôl i chi wneud cais

Byddwch yn derbyn cadarnhad bod eich cais wedi'i dderbyn o fewn wythnos i'w gyflwyno a chewch ddolen i ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn gwell gen i beidio â dweud. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru yn prosesu data ymgeiswyr, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

Cewch glywed a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad o fewn pythefnos i ddyddiad cau'r cais.

# Hysbyseb Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Rheolwr Cynaliadwyedd |
| **Cyfnod:** | Amser llawn (cefnogir gweithio hyblyg) |
| **Cyflog:** | £27-£33k y flwyddyn |
| **Dyddiad cau:** | 13 Chwefror am hanner dydd |
| **Cyfweliadau:** | 20 Chwefror |

Cyfle unigryw i gefnogi gweithwyr proffesiynol y sector sgrin i gyflawni allyriadau carbon sero-net erbyn 2050, gan arwain ar raglen 'Cymru Werdd' Ffilm Cymru mewn partneriaeth ag Albert Bafta, Llywodraeth Cymru, y BFI, Media Cymru, a mwy.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- O dan ein prosiect Media Cymru[1], gweithio mewn partneriaeth ag UKRI a Phrifysgol Caerdydd i ddarparu £600,000 o gyllid arloesi gwyrdd dros dair blynedd
- Goruchwylio cynnydd gwaith ymchwil 'Bargen Sgrin Newydd: Cynllun Trawsnewidiol i Gymru' dan arweiniad Albert[2]
- Datblygu perthynas â sefydliadau a chwmnïau eraill sy'n gweithio ym maes cynaliadwyedd a bod yn llysgennad i'r cwmni i'r perwyl hwn
- Cefnogi tîm ehangach Ffilm Cymru gydag adnoddau a fydd yn helpu'r gwneuthurwyr ffilm, yr arddangoswyr a'r addysgwyr y maent yn gweithio gyda nhw i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy

[1] https://media.cymru/
[2] https://wearealbert.org/2022/02/01/were-working-with-the-welsh-screen-sector-on-a-screen-new-deal-transformation-plan/#:~:text=The%2018%2Dmonth%20programme%20will,transformation%20plan%20by%20mid%2D2023.&text=Creative%20Wales%2C%20Ffilm%20Cymru%20Wales%20and%20Clwstwr%20champion%20environmental%20sustainability,from%20studios%2C%20producers%20and%20suppliers.

- Rheoli gwaith monitro amgylcheddol mewnol Ffilm Cymru a darparu argymhellion i gynorthwyo’r sefydliad i gyflawni ei dargedau Sero Net ei hun.

## Sgiliau a Phrofiad

- Dealltwriaeth gref o rwymedigaethau di-garbon a pholisi amgylcheddol ehangach.
- Profiad proffesiynol blaenorol o reoli prosiectau, deall amserlennu, cyllidebu a gwerthuso
- Profiad o brosesau ymchwil a datblygu
- Sgiliau ymchwil a threfnu da
- Sgiliau cyfathrebu da

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf gofynnol ar gyfer y swydd ac sy'n arddel hunaniaeth Pobl y Mwyafrif Byd-eang, Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig neu bobl F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael. Cysylltwch â Ihsana@ffilmcymruwales.com.

disability confident COMMITTED

We are a Living Wage Employer

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales

DO YOU?

Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

# Swydd-ddisgrifiad Llawn

**Adran:** Datblygu a Chynhyrchu
**Swydd:** Rheolwr Cynaliadwyedd, Amser Llawn (posibilrwydd i rannu swydd)
**Yn adrodd i:** Pennaeth Cynhyrchu
**Lleoliad:** Cymru. Mae ein swyddfa yng Nghaerdydd ond mae posibilrwydd i weithio o bell.
**Dyddiadau cyfweliadau:** 20 Chwefror, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Cadarnhewch ar eich ffurflen gais os na allwch fod yn bresennol ar unrhyw un o'r dyddiadau hyn.
**Cyflog:** £27,000 - £33,000 (yn dibynnu ar brofiad), yn ogystal â phensiwn a 28 diwrnod o wyliau ynghyd â Gwyliau Cyhoeddus.
**Sut i wneud cais:** Oni bai ein bod wedi cytuno gyda chi ar fformat arall i gyflwyno cais, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol mewn e-bost iihsana@ffilmcymruwales.com yn amlinellu eich argaeledd, a'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn y Gofynion Sylfaenol sydd wedi'u hamlinellu yn y swydd-ddisgrifiad.
**Dyddiad cau:** 13 Chwefror am hanner dydd.

## Nodau'r Swydd

Cefnogi gweithwyr proffesiynol y sector sgrin yng Nghymru i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050, gan gefnogi sector sydd nid yn unig mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â heriau sy'n codi yn sgil materion amgylcheddol ond sector sy'n parhau i dyfu'n gynaliadwy. Wedi'ch arwain gan Nodau Cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â'n Polisi Cymru Werdd[3] ein

[3] https://ffilmcymruwales.com/sites/default/files/2022-08/Ffilm%20Cymru%20Wales%20Environmental%20Policy.pdf

hunain, bydd gennych olwg eang ar gynaliadwyedd a byddwch yn deall sut mae'n rhaid i gynaliadwyedd amgylcheddol fod mewn deialog ag amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac entrepreneuriaeth.

Mae ein rhaglen Cymru Werdd yn cynnwys pedwar maes gweithgaredd:

- **Ymchwil** – Deall y sefyllfa a'r rhwystrau presennol yn y sector sgrin yng Nghymru a chasglu gwir fesur o'i effaith amgylcheddol bresennol
- **Arloesi a chydweithio** – Darparu atebion ymchwil, datblygu ac arloesi i heriau gwyrdd, ynghyd ag ymgysylltu a chydweithio ag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau
- **Cymorth** – Cynorthwyo sector sgrin Cymru a hyrwyddo hyfforddiant, offer a mentrau presennol a fydd yn helpu pawb i fod yn fwy cynaliadwy
- **Gwella** – Gwella perfformiad amgylcheddol ein sefydliad ein hunain ynghyd ag eraill.

**Cyfrifoldebau**

- Goruchwylio holl brosiectau 'Cymru Werdd' sydd ar y gweill gan gynnwys 'Bargen Sgrin Newydd: Cynllun Trawsnewidiol i Gymru', cronfa Her Cymru Werdd, a phrosiect Cronfa Her Cysylltiedig Blockchain gyda Ffilm Werdd (gyda'r ddau olaf yn agos at fod wedi'u cwblhau).
- Rheoli prosiect ar ein pecyn gwaith tair blynedd, Media Cymru, gan gymryd cyfrifoldeb am reoli'r gyllideb, amserlen gweithgareddau, ac adrodd.
- Gweithio'n agos gydag UKRI a Media Cymru i ddylunio'r cyllid arloesi sydd ynghlwm wrth y pecyn gwaith gwyrdd, gan ddatblygu canllawiau, meini prawf, a ffurflenni cais i'w hadolygu.

- Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer ymgeiswyr i'r gronfa arloesi uchod, gan annog amrywiaeth o ymgeiswyr.
- Cynorthwyo’r Rheolwr Cyfathrebu i ddatblygu cynllun marchnata a chysylltiadau cyhoeddus ar gyfer prosiect Media Cymru, o hyrwyddo’r cyllid arloesi i rannu’r hyn a ddysgwyd.
- Datblygu digwyddiadau ysbrydoli i hybu ceisiadau a gwella ymwybyddiaeth o heriau gwyrdd y sectorau sgrin, gan ddod ag arbenigwyr o sectorau eraill, fel ynni, a gweithwyr proffesiynol y sector sgrin at ei gilydd.
- Bwydo i'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch y cyllid arloesi a bod yn brif bwynt cyswllt i’r rhai y dyfernir cyllid iddynt, gan fonitro a chefnogi datblygiad eu syniad a’u cyflwyno i arbenigwyr perthnasol lle bo angen.
- Darparu dealltwriaeth ac argymhellion i gefnogi sector sgrin wyrddach, ar draws ein gwaith gyda gwneuthurwyr ffilm, sinemâu, ac addysgwyr ffilm ac ym maes datblygu sgiliau yn benodol, gan fwydo i mewn i'r cynlluniau cynaliadwyedd sydd eu hangen arnom o bob cynhyrchiad ffilm nodwedd y buddsoddwn ynddo.
- Rheoli gwaith monitro cynaliadwyedd mewnol Ffilm Cymru a darparu argymhellion i gynorthwyo’r sefydliad i gyflawni ei dargedau Sero Net ei hun a bod yn fwy cynaliadwy.
- Datblygu perthnasoedd â sefydliadau sgrin eraill a chwmnïau sy'n gweithio ym maes cynaliadwyedd, gan gynnwys Green Regio[4] a rhwydwaith rheolwyr cynaliadwyedd ledled y DU.
- Cynrychioli Ffilm Cymru mewn digwyddiadau a bod yn eiriolwr dros ymarfer sgrin cynaliadwy;
- Cyflawni’r holl gyfrifoldebau mewn ffordd sy’n cynnal gwerthoedd Ffilm Cymru ac yn hybu cynaliadwyedd, cyfle

[4] https://www.cineregio.org/subgroups/green_regio/

cyfartal ac amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Ffilm Cymru a'r sector ehangach.

- Bwydo i mewn i waith asesu ceisiadau yn ehangach yn yr adran os bydd angen ar adegau.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y gall eich rheolwr llinell ofyn yn rhesymol amdanynt neu eu dirprwyo.

## Gofynion Sylfaenol ar gyfer y Swydd

### Gwybodaeth a Phrofiad

- Dealltwriaeth gref o rwymedigaethau di-garbon a pholisi amgylcheddol ehangach.
- Profiad proffesiynol blaenorol o reoli prosiectau, deall amserlennu, cyllidebu a gwerthuso
- Profiad o brosesau ymchwil a datblygu
- Dealltwriaeth o ragfarn strwythurol ac wedi ymrwymo i hybu amrywiaeth a chynhwysiant
- Gallu cyfrifiadurol gyda gwybodaeth ymarferol dda o Microsoft Office (gan gynnwys Teams) a Zoom.

### Sgiliau ac Ymagwedd

- Sgiliau ymchwil a threfnu da gyda sylw rhagorol i fanylion
- Sgiliau cyfathrebu da, yn gyfforddus ag eiriolaeth
- Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith da gydag arianwyr partneriaeth a rhanddeiliaid.
- Cydweithredol a diddordeb mewn canfod y cyswllt rhwng eu gwaith hwy a gwaith eraill ac wedi'u cyffroi gan y cyfle i'w gwaith gefnogi newid ehangach.

- Brwdfrydedd dros ffilm a theledu annibynnol a'r diwydiannau creadigol.

Noder bod y canlynol yn ddymunol ond nid yn hanfodol a byddwn yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei rinweddau ei hun: Rhuglder yn y Gymraeg, gwaith blaenorol i ddylanwadu ar gynaliadwyedd ar raddfa fawr a pherthnasoedd presennol ag arweinwyr ym meysydd trafnidiaeth, ynni, cyfleustodau a/neu reoli gwastraff.

## Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i hybu sector ffyniannus y gallwn oll fod yn falch o ddweud ei bod yn perthyn i ni. Dyma sut y gwnawn hyn:

- Gweithio gyda phartneriaid i hybu safle byd ffilm yng Nghymru a thu hwnt
- Creu amgylchedd lle gall ffyrdd o weithio sy'n fwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd gael eu profi, eu hintegreiddio a'u rhannu
- Hwyluso i bobl o bob oedran a gallu ddysgu'n greadigol
- Datblygu gweithlu sgrin i'r dyfodol drwy amryw raglenni hyfforddiant
- Buddsoddi mewn ffilmiau anarferol a rhai sy'n cymryd risgiau a'u gwneuthurwyr o gam cynnar
- Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru

Rydym yn rheoli arian y loteri genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol. Mae ein gwaith yn cyd-fynd yn agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn

enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018 lansiwyd ein Cynllun Strategol 2018 -2024, sydd ar gael i'w ddarllen fan yma.